***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 547

# Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) (Diwygio) 2017

**Amrywio ceisiadau ar ôl hysbysiad o apêl**

**6.** Ar ôl rheoliad 13, mewnosoder—

"**Amrywio ceisiadau ar ôl hysbysiad o apêl**

**13A.**—(1) At ddibenion adran 21(3E) o DCSP(**1**) yr amgylchiad a ragnodir yw bod y cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn cynnwys gwall cywiradwy.

(2) Mae cais sydd wedi ei amrywio o dan yr amgylchiad a ragnodir ym mharagraff (1) yn destun unrhyw ymgynghori pellach y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "gwall cywiradwy" ("*correctable error*") yw gwall—

(a) sydd wedi ei gywiro er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais a'r dogfennau atodol yn gyson; a

(b) nad yw'n addasu hanfod y cais."

(**1**) Mewnosodwyd adran 21(3E) gan adran 47(4) o Ddeddf 2015.